



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Cynllun Strategol 2018-2023



Mawrth 2018

Cynnwys

Rhagair.....	3
Beth ydyn ni'n ei wneud.....	4
Ein Cyllideb.....	5
GTADC a'r Gyfraith.....	7
Datganiad Llesiant.....	8
Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.....	9
Ein Gweledigaeth	10
Thema Strategol 1 - Lleihau Risg.....	12
Thema Strategol 2 - Ymgysylltu a Chyfathrebu	14
Thema Strategol 3 - Maethu Adnoddau Cynaliadwy.....	16
Thema Strategol 4 - Anwesu Technoleg.....	19
Thema Strategol 5 - Cryfhau Partneriaethau.....	21
Oeddech chi'n gwybod, eisoed rydym wedi... ..	23
Ein perfformiad	26



Rhagair



Huw Jakeway

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru (GTADC)



Cyng. Tudor Davies

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru (ATADC)

Croeso i Gynllun Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar gyfer 2018–2023. Amlinella'r cynllun hwn ein trywydd strategol dros y pum mlynedd nesaf ac eglura sut ydym yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cwrdd â gofynion ein cymunedau. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r heriau a wynebwn. Rydym yn hyderus o'n themâu strategol hirdymor a bydd camau blaenoriaeth byrdymor yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaeth cynaliadwy. Byddant hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau fel aelodau statudol o'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ardal ein Gwasanaeth a thystiolaethu ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae Ein Gweledigaeth yn parhau'n ffocws allweddol i ni; **"Gwneud De Cymru'n**


ddiogelach wrth leihau risg"; a byddwn yn parhau i ymdrechu am hwn er gwaetha'r heriau ariannol a wynebwn. Rydym yn cydnabod mai dim ond wrth herio a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio y cawn gyflawni cymunedau diogelach, wrth reoli ein hadnoddau'n effeithiol a chydweithio â'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cydlynus. Mewn cyfnodau o lynder, mae temtasiwn i ganolbwyntio ar gostau a chyllidebau gostyngol hebystyried ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, fel Uwch Dîm Rheoli ac Awdurdod Tân ac Achub, gwnaethom y penderfyniad i ganolbwyntio ar sut gallwn wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r gred ddi-syfl y gwneir arbedion effeithlonrwydd ac arbedion o ganlyniad.

Yn Hydref 2017, cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol gennym yn cynnig ein camau blaenoriaeth newyddadiolchwnichiameich

adborth. Mabwysiadwyd eich awgrymiadau gennym, a gobeithiwn byddwch yn cytuno fod y ddogfen hon yn cynrychioli ein hymrwymiad i chi. Amlinella'r cynllun hwn ein nodau ar gyfer 2018-2023 yn seiliedig ar gyflawni neu weithio tuag at gyflawni ein camau blaenoriaeth. Hefyd, mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein hymrwymadau ariannol o setliadau Awdurdod Lleol ac yn adnabod lle'r ydym yn bwriadu dyrannu gwariant. Manyla beth fwriadwn wneud, â phwy fyddwn yn cydweithio, sut rydym yn cynllunio i ddarparu hyn a pham y credwn ei fod yn bwysig.

Yn derfynol, fe'ch gwahoddwn i gynnig adborth am eich safbwyntiau ynghylch y cynllun hwn, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ein bod yn chwilio'n barhaol am ffyrdd o ymgysylltu â chi ynghyd â gwella.

Beth ydym yn gwneud



Mae GTADC yn cwmpasu 10 Awdurdod Lleol (A LI) sy'n cyfansoddi ardal De Cymru. Mae 24 o aelodau etholedig yn ein Hawdurdod Tân ac Achub a enwebwyd o'r 10 A LI. Un o'r ardaloedd gwasanaeth tân ac achub fwyaf yn y DU ydyw ac mae'n cynnwys ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol.

999 35,381 GALWADAU BRYD A DDERBYNIWYD YN 2016-2017

CYFANSWM NIFER Y DIGWYDDIADAU
17,315
 O'R RHAIN ROEDD **5,798** YN DANAU
 AC ROEDD **4,054** YN FWRIADOL

762
 O DANAU YN Y CARTREF A
69
 O BOBL WEDI'U HACHUB GAN YMLADDWYR TÂN

1,179
 O WRTHDRAWIADAU TRAFFIG AR Y FFYRDD (GTFF)

FE: **177** O BOBL RYDDHAWYD GENNYM A OEDD YN GAETH MEWN CERBYDAU

104 WNAETHOM BEIDIO MYNYCHU O ALWADAU WEDI EU HADNABOD FEL RHAI FFUG MALEISUS

19,916
 O ARCHWILIADAU DIOGELWCH RHAG TÂN YN Y CARTREF
16,387 GYDA **3,529** WEDI'U CYFLAWNI GAN EIN PARTNERIAID MEGIS GOFAL A THRWSIO AC AGE CYMRU


47,408
 GYNHALIWYD YMGYSYLLTIADAU WYNEB YN WYNEB Â
 O BLANT A PHOBL IFANC DRWY LAW YMWELIADAU AG YSGOLION

Ffynonellau:
 Datganiadau Ystadegol Blynnyddol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Diogelwch Tân Cymunedol)
 System Cofnodi Digwyddiadau (SCD), Datganiad Ystadegau Gweithredol 2016 -2017

Ein Cyllideb


Yn 2018-2019, mae'r Awdurdod Tan ac Achub yn cynllunio i wario ychydig dros £71m ar ddarparu ei wasanaethau, sydd gyfystyr â 90c yr wythnos i gadw pob person yn Ne Cymru'n ddiogel. Daw'r arian a warir gennym yn bennaf o Awdurdodau Lleol. Ar bob adeg, bwriadwn arddangos gwerth am arian gan ddarparu ein gwasanaethau ar y gost leiaf posib. Wrth ystyried faint i'w wario, mae'r angen i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau a lleihau risg yng nghymunedau De Cymru'n parhau'n flaenoriaeth i ni. Mae hyn yn sicrhau y darparwn y gwasanaeth gorau y gallwn i'n cymunedau mor effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosib.

Dengys y graff isod ein gwariant arfaethedig ar gyfer 2018 - 2019. Mae mwyafrif ein gwariant ar gostau gweithwyr, gyda thua 76% ohono'n cael ei wario ar staff rheng flaen.



Ein Cyllideb

Mae'r graff isod yn amlinellu o le daw'r mwyafrif o'n cyllid. Selir y symiau a gyfrifwyd ar ffigyrau boblogaeth (Pob.) i bob ardal Awdurdod Lleol.



GTADC a'r Gyfraith

Mae gennym sawl fframwaith cyfreithiol sy'n ein darparu â rheolau a chyfarwyddwyd ar ba wasanaethau y mae'n rhaid i ni ddarparu. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r rhai a nodwyd isod. Darpara'r rhain gyfle i ni gadw pobl, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd yn Ne Cymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill mor effeithiol ac effeithlon â phosib wrth wella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (2004) Noda beth a ddisgwylir gennym a sut mae'n rhaid i ni weithredu.

Mae **Deddf Hapddigwyddiadau Sifil (2004)** yn sefydlu fframwaith i gynllunio ac ymateb brys, yn ymestyn o lefelau lleol i genedlaethol.

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mynega fod rhaid i unrhyw berson sydd ag unrhyw lefel o reolaeth o fewn eiddo gymryd camau rhesymol i ostwng y risg rhag tân a sicrhau gall pobl ddianc yn ddiogel pe bai tân.

Manyla **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** y gofynion cyfreithiol ar gyfer gwella gwasanaethau a chynllunio strategol gan Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Chwilia i gyflawni gwelliannau mewn gwasanaeth yn y byrdymor a chefnogi llesiant cymunedau yn y byrdymor.

Bwriad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac i genedlaethau i ddod.

Mae **Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol** yn datgan gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Disgrifia beth fydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gan Awdurdodau Tân ac Achub ac mae'n creu'r sylfaen lle adeiladir a hyrwyddir gwelliant, effeithlonrwydd ac arloesedd.

Datganiad Llesiant

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhoi'r cyfle i ni ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithrediadau ac i weithio'n well gydag aelodau eraill o'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yr ydym yn aelodau ohonynt, i sicrhau y cawn ddyrchafu a diogelu'r cymunedau yr ydym yn gwasanaethu.

I ni, dechreuodd yr ymrwymiad hwn ar gychwyn ein cylch cynllunio strategol lle adnabyddodd ein Huwch Dîm Reoli sut cawn gefnogi saith amcan y Ddeddf Llesiant. O'r fan honno, datblygwyd cyfres o bum Thema Strategol y teimlwyd oedd yn ein tywys drwy'r hirdymor. Yn y byrdymor, sefydlwyd Camau Blaenoriaeth gennym fel modd o ddarparu. Nodwyd y rhain yn ein dogfen ymgynghori **"Sut y gwnaethom yn 2016-2017 a beth ydyn ni'n cynllunio i ddarparu yn 2018-2019"**. Awgryma canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw fod cytundeb â'n camau blaenoriaeth, ac felly, ceir manylion o fewn y cynllun hwn.

Hefyd, ymgorfforwyd egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ar bob cam o'n camau cynllunio; o strategol i dactegol a gweithredol. Ymdrech gynnar yw hon ym mhob ffordd a chydabyddwn, gyda chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn ymgorffori'r egwyddorion hyn ymhellach, ond ar hyn o bryd, mae ein prosesau cynllunio'n cynnwys y ddealltwriaeth a'r dystiolaeth fod ein gwaith;

1. Yn edrych tua'r hirdymor wrth sicrhau fod gwasanaethau'n gynaliadwy a deallwn ofynion y dyfodol
2. Yn cymryd dull cyfannol wrth ystyried effaith gyfan ein hamryfal amcanion
3. Yn cynnwys ein cymunedau mewn penderfyniadau wrth ymgysylltu â phoblogaeth De Cymru; gan gynnwys amrywiaeth ein poblogaeth (mae hwn hefyd yn cefnogi ein Dyletswydd Gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
4. Yn cyflawni mwy wrth gydweithredu ag eraill
5. Yn deall gwraidd achos materion; wrth ddefnyddio data grymus sy'n rhoi'r ffeithiau sydd y tu ôl i'r stori, a thrwy hyn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau rhagweithiol

Yn fwyaf diweddar, buom ynghlwm â chynhyrchu'r Cynlluniau Llesiant â phob un o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. Cyhoeddir y naw cynllun hyn erbyn Mai 2018 a nodant sut byddwn yn cynllunio i weithio'n agos ag eraill i wella Cymru nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi dadansoddi sut y gallwn gefnogi pob un o'r Cynlluniau Llesiant i sicrhau eu bod yn llwyddiannus.

Cydraddoldeb

Mynegodd GTADC, mewn termau clir, [Gynllun Cydraddoldeb Strategol](#) sy'n adrodd cynnydd ar hwn yn flynyddol ([mae hwn yn ategol i'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol](#) gorfodol). Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys pedwar canlyniad trosfwaol:

- **Canlyniad 1** - Mae ein gweithlu'n amrywiol, yn gydradd ei werth, ac mae gan bawb fynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol.
- **Canlyniad 2** - Rydym yn defnyddio Strategaeth a gweithdrefnau Caffael Cymru i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi busnesau lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- **Canlyniad 3** - Cawn y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau fod y cyfan y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau.
- **Canlyniad 4** - Bydd ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol o'n dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn eiddgar i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy'r iaith Gymraeg. O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyhoeddwyd Rhybudd Cydymffurfiaeth Safonau'r Iaith Gymraeg ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd y Rhybudd Cydymffurfiaeth hwn ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion ynghylch pa wasanaethau gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn chwilio i ymgysylltu â'r siaradwyr Gymraeg a'r dysgwyr i wella safon gyfansymiol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Mae'r Cynllun Strategol ar gael yn [Saesneg](#)

Ein Gweledigaeth

“Gwneud De Cymru’n ddiogelach wrth leihau risg”

Crynhair ein cynllun ar gyfer 2018-2019 isod. Mae pum thema strategol a gefnogir gan y chwe cham blaenoriaeth. Adolygwyd ein camau blaenoriaeth ar gyfer eleni ac fe’u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad rhwng Hydref 2017 ac Ionawr 2018.

wrth

Wasanaethu anghenion ein cymunedau

Weithio ag eraill

Wynebu heriau wrth arloesi a gwella

Leihau Risg wrth addysgu, ymateb a gorfodi

Llwyddo i wneud De Cymru’n ddiogelach

Ein themâu strategol yw;	Bydd ein Camau Blaenoriaeth (CB) yn caniatáu i ni gyflawni hyn wrth;	I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i;
 Leihau Risg	CB01 - gweithio gydag eraill i ddiogelu ein cymunedau rhag niwed neu risg niwed	• Gyflwyno ymweliadau Diogel ac Iach i bob un o’r 10 Awdurdod Lleol • Adnabod y rhai bregus yn ein cymunedau wrth ddadansoddi tueddiadau galwadau • Ystyried argymhellion a wnaed yn dilyn tân trasig Tŵr Grenfell yn Llundain • Weithio â phartneriaid i ostwng nifer y tanau sbwriel a thanau gwyllt • Ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ein cymunedau o unrhyw risgiau parhaol • Gyflawni Cynllun Gwirfoddoli newydd i gefnogi mentrau Diogelwch Cymunedol • Ddarparu mwy o gyrsiau mewn mwy o leoliadau’r fenter Chwyldro “Cymru Gyfan” • Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu prosiectau Ffenics a Throseddau a Chanlyniadau
 Ymgysylltu a Chyfathrebu	CB02 - datblygu ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o ymgysylltu a chyfathrebu â’n cymunedau ynghylch ein gwasanaethau	• Wella ein hymgysylltu cymunedol yn y Cyd Ganolfan Rheoli • Lansio ein gwefan newydd a pharhau i ddatblygu hyn ar hyd y flwyddyn • Dargedu ein hymgyrchoedd atal i grwpiau penodol • Gyfweld â holl breswylwyr tanau damweiniol o fewn tai fel rhan o brosiect LIFEID • Barhau â’r cyswllt a wnaed â’r cymunedau sy’n deithwyr • Ddarparu digwyddiad diogelwch cymunedol llwyddiannus yn ystod Her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) ym Medi 2018 • Ddefnyddio’r cerbyd Addysgu ac Ymgysylltu i addysgu ein cymunedau • Agor tair cangen cadetiaid tân newydd

Ein themâu strategol yw;	Bydd ein Camau Blaenoriaeth (CB) yn caniatáu i ni gyflawni hyn wrth;	I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i;
 Maethu Adnoddau Cynaliadwy	CB03 - sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n alluog i ddarparu ein gwasanaethau CB04 - gostwng effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol	• Gyflwyno'r Cynllun Gwirfoddoli i gynnwys y gymuned â'n Gwasanaeth • Ddarparu negeseuon recriwtio wrth ymgymryd â gweithgareddau Diogelwch Cymunedol • Barhau â'r strategaeth newydd ar gyfer recriwtio i'r System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA) • Ddatblygu cynlluniau yn ôl olyniaeth i sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw staff o ansawdd • Adeiladu cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) i hyfforddi staff • Ddatblygu system bywyd cyfan wrth brynu offer newydd • Ymchwilio i ddefnydd cerbydau trydanol neu hybrid ar hyd y sefydliad • Osod goleuadau LED newydd sy'n effeithlon o ran egni ar draws ein safleoedd yn Ne Cymru • Ddisodli nifer o unedau awyru aneffeithlon o fewn ein hadeiladau • Ymestyn a datblygu nifer o brosiectau 'cyd-leoli' â'n partneriaid
 Anwesu Technoleg	CB05 - sicrhau y defnyddiwn dechnoleg i alluogi darparu gwasanaethau sy'n well ac yn effeithlon	• Ddatblygu ymgyrchoedd lleihau risg rhith-wirionedd • Lywio dyfais symudol i leihau papur sy'n gysylltiedig ag ymweliadau Diogel ac Iach • Ddatblygu System Rheoli Gwybodaeth Diogelwch Tân i Fusnesau sy'n seiliedig ar risg • Chwilio am uwchraddiadau ac arfer i ddyrchafu delio ag a danfon galwadau • Ymchwilio i bob cyfle i ddefnyddio technoleg wrth brynu offer newydd • Ddatblygu System Rheoli Fflyd, gyda'r nod o fod yn ddi-bapur erbyn 2019 • Brynu offer ymladd tân newydd sy'n adlewyrchu llesiant a diogelwch
 Cryfhau Partneriaethau	CB06 - gweithio â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i gefnogi cymunedau lleol	• Gyflawni a chefnogi camau a amlinellwyd o fewn cynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus • Ymgysylltu ag Adrannau Cynllunio a Rheoleiddio Adeiladau Awdurdodau Lleol • Gryfhau ein partneriaethau â Heddlu De Cymru drwy law'r Ganolfan Cyd-Reoli Tân • Barhau i weithio â'n hasiantaethau i gyfeirio pob unigolyn bregus a adnabuwyd • Weithio gydag asiantaethau partner yng nghanam profi ein gwefan newydd



Thema Strategol 1

Byddwn yn **Lleihau Risg** wrth;

Weithio ag eraill i ddiogelu ein cymunedau rhag niwed neu risg niwed

(CB 01)

Golyga hyn:

Byddwn yn darparu ataliaeth rhag argyfyngau, amddiffyniad rhagddynt ac ymateb iddynt er mwyn diogelu ein cymunedau. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bu ein gweithgareddau atal yn hynod ddylanwadol wrth leihau argyfyngau yn ystod y blynyddoedd diweddaraf - tuedd yr ydym yn awyddus i'w gynnal a'i wella. Un o yrwyr allweddol ein rhaglen ymgyrchoedd atal yw'r wybodaeth a gesglir gan ac a rennir â sefydliadau eraill sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol ar sail tystiolaeth ystadegol. Felly, rydym yn dymuno "caffael y data cywir/wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau bydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau" (Canlyniad Cydraddoldeb 3) a sicrhau "bydd ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol o'n dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol yn gyfreithiol" (Canlyniad Cydraddoldeb 4).

I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i:

- Ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ein cymunedau o amodau tywydd garw, llifogydd ac unrhyw ddigwyddiadau eraill ar raddfa fawr a all achosi amhariad neu risg posib iddynt.
- Gyflwyno ymweliadau Diogel ac Iach i bob un o'r 10 Awdurdod Lleol, sy'n cynnwys addysgu derbynyddion ynghylch atal cwympiadau, cyngor ar garbon monocsid, atal ysmegu, diogelwch tân ac atal troseddau.
- Ystyried argymhellion dau ymchwiliad sy'n gysylltiedig â thân Tŵr Grenfell yn Llundain mewn perthynas â byw mewn fflatiau tŵr.

- Adnabod y rhai bregus yn ein cymunedau wrth ddadansoddi tueddiadau galwadau o fewn y Tîm Atal a Diogelu a ffurfiwyd yn ddiweddar yn y Cyd Ganolfan Rheoli Tân. Bydd hyn yn eu caniatáu i ddarparu hysbysiadau cynnar parthed unigolion bregus i bartneriaid ac adrannau perthnasol
- Weithio â phartneriaid i leihau nifer y tanau sbwriel ac ardaloedd targed a effeithiwyd gan danau gwyllt.
- Gyflawni Cynllun Gwirfoddoli newydd i gefnogi Mentrau Diogelwch Cymunedol a darparu negeseuon allweddol i gynulleidfa ehangach.
- Ddarparu cymorth i geiswyr lloches wrth osod arwyddion diogelwch tân sy'n 'hawdd eu darllen' ar bob drws yn eu llety a hefyd darparu'r neges ddiogelwch yn eu pecyn tenantiaeth wedi iddynt gyrraedd. Bydd hyn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o amrediad o faterion megis coginio a diogelwch trydanol.
- Weithio â phartneriaid cyfredol ac archwilio ffyrdd newydd o ddarparu prosiectau Ffenics a Throseddau a Chanlyniadau.
- Greu cytundebau ar gyfer rhannu data ag asiantaethau eraill a all adnabod pwy sydd fwyaf angen ein cymorth.
- Lansio ein gwefan newydd, fydd y caniatáu defnyddwyr i gyrchu gwybodaeth sy'n ymwneud â'u diogelwch a'u llesiant.
- Barhau i ddefnyddio technoleg Trosglwyddiad Digwyddiad Electronig Uniongyrchol (TDEU) i ganiatáu cyfnewid cyflym ac ymarferol o wybodaeth a diweddariadau ar draws gwasanaethau brys eraill.
- Barhau i gasglu gwybodaeth sy'n gritigol i risg i alluogi ein criwiau i gyflawni eu gweithgareddau gweithredol mewn amgylchedd sydd cyn ddiogeled â phosib gyda'r wybodaeth sydd angen arnynt pan fyddant eu hangen.
- Ddarparu mwy o gyrsiau mewn mwy o leoliadau'r o Fenter Chwyldro "Cymru Gyfan" (mewn cydweithrediad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub Cymreig arall) yn gweithio gyda throseddwyr a'r rhai hynny a adnabuwyd eu bod mewn perygl rhag troseddu. Fe wnaethom ymuno â'r Heddlu, y Gwasanaeth Carchardai, y Groes Goch a phartneriaid gwerthfawr eraill i ddarparu'r fenter ymwybyddiaeth ynghylch troseddau cerbydau mewn gorsafoedd tân lleol, gan obeithio gwneud i bobl ifanc feddwl am ganlyniadau eu gweithredoedd.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Wrth ddatblygu'r Cynlluniau Llesiant ar gyfer pob un o'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, mynegwyd i ni gan y cyhoedd eu bod am gymunedau diogel, cyfeillgar sydd â chyswllt da. Byddwn yn chwarae ein rhan wrth rannu gwybodaeth â phartneriaid a chyfrannu ar lefel leol at gyflawni'r nod hon. Bydd gweithio cydweithredol yn sicrhau rydym yn darparu neges gydlynus i bobl o fewn cymunedau, nid yn unig am ddiogelwch ond hefyd ystod o fentrau eraill i wella llesiant y gymuned gyfan. Bydd hyn yn sicrhau bydd cenedlaethau'r dyfodol yn derbyn budd o'r gwaith rydym yn gwneud nawr, gan gynnwys ymatebion a dargedwyd sy'n benodol i ddata i'r bobl a'r ardaloedd sydd â'r risg fwyaf. Byddwn yn darparu ystod eang o weithgareddau atal i gadw ein cymunedau'n ddiogel.



Thema Strategol 2

Byddwn yn **Ymgysylltu**
a **Chyfathrebu** wrth:

**Ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon
o ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau
ynghylch ein gwasanaethau**

(CB 02)

Golyga hyn:

Byddwn yn gwella a lliflinio'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl leol ynghylch gwasanaethau lleol. Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau i greu deialog dwy lôn â phobl ar sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu yn gwella ac mae ein cyrhaeddiad yn lledaenu. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod angen i ni wella. Gyda hyn mewn cof, byddwn yn ceisio'n galetach i gyrraedd y grwpiau a'r cymunedau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol sydd angen i ni ymgysylltu mwy â hwy. Targedir ein negeseuon, a rhai ein partneriaid, at y rhai sydd fwyaf angen ein help.

I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i:

- Gwella ein hymgysylltiadau cymunedol o fewn Cyd Rheoli Tân o argymhellion gan ein Tîm Atal a Diogelu.
- Lansio'r wefan newydd a pharhau i ddatblygu hwn ar hyd y flwyddyn. Bydd yn cynnwys optimeiddio ar gyfer dyfeisiau llechen a symudol ac yn caniatáu i ni ddarparu gwybodaeth drwy law delweddau, fideo a chynnwys sy'n hawdd i'w ddarllen. Bydd opsiynau hygyrchedd yn cynnwys amryfal ieithoedd, testun bras ac offer darllen, gan arddangos gwybodaeth mewn ffordd eglur.
- Dargedu ymgyrchoedd i grwpiau penodol, yn newid y ffordd yr ydym yn darparu negeseuon i'r gymuned, e.e. wrth ddefnyddio meddalwedd rhith-wirionedd.
- Gyfweld â deilydd pob tân damweiniol yn y cartref yn ein hardal fel rhan o brosiect LIFE BID (Gwersi Ymddygiad Tân a Gwacáu Mewn Annedd) ac i ddysgu o'r wybodaeth hon er mwyn saerïo ein hymgyrchoedd addysgu a chyfryngau.

- Gynnal y cyswllt a wnaethpwyd â chymunedau teithwyr i helpu dosbarthu gwybodaeth diogelwch tân a chynnal ymweliadau Diogel ac Iach i osod canfodyddion nwy, canfodyddion carbon monocsid, larymau mwg a gwres.
- Ddarparu digwyddiad diogelwch cymunedol llwyddiannus yn ystod Her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) ym Medi 2018 ym Mae Caerdydd. Bydd hyn yn cynnwys amserlen digwyddiadau a gynlluniwyd, gweithgarwch allgymorth, ymgyrchoedd a negeseuon ar y cyd. Mae'r digwyddiad yn gyfle unigryw i ni rannu negeseuon allweddol â'r cyhoedd yn ystod penwythnos o ddigwyddiadau proffil uchel.
- Ddefnyddio'r cerbyd Addysgu ac Ymgysylltu i addysgu a hysbysu ein cymunedau.
- Agor tair cangen cadetiaid tân newydd, yn arwain at hyd at 60 o bobl ifanc ychwanegol yn derbyn addysg diogelwch a chefnogaeth gennym.
- Ddatblygu protocol trwyddedu "Cymru Gyfan" newydd (mewn cydweithrediad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub Cymreig arall) i sicrhau fod dull cyson i hysbysu ac ymgynghori â busnesau fel tafarndai a chlybiau gamblo i sicrhau bod eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel.
- Gynhyrchu gwybodaeth a gynlluniwyd i gyrraedd pob cynulleidfa ac i ystyried rhwyddineb darllen, gwahanol ieithoedd ac amhariadau i'r synhwyrâu.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Mae deall, gwranddo ar ein cymunedau a'u cynrychioli yn rhan hanfodol o'n rôl. Rydym yn edrych ar ffyrdd lle'r ydym yn gwneud hyn; rydym yn cydnabod fod cymdeithas yn newid ac felly, mae angen i ni newid sut rydym yn cyfathrebu. Byddwn yn cyflawni hyn wrth agor sianelau cyfathrebu â phawb, yn enwedig grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau.

Bydd hyn o fudd i bawb, oherwydd bydd yn caniatáu i ni gadw pobl yn gyfredol ynghylch y materion a all eu heffeithio hwy. Hefyd, gallwn wrando ar beth mae ein cymunedau'n dweud a gweithredu'n gyflym i ddatrys problemau. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd a arweiniwyd gan ddata gwybodus sy'n adnabod a thargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl rhag trosedd neu gam-drin.





Thema Strategol 3

Byddwn yn **Maethu Adnoddau Cynaliadwy** wrth:

Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n alluog i ddarparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac i'r dyfodol

(CB 03)

Leihau effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol

(CB 04)

Golyga hyn:

Mae ein hadnoddau cynaliadwy yn cynnwys ein haelodau staff yn ogystal â'r adnoddau corfforol a ddefnyddir gennym. Byddwn felly yn parhau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gennym wrth ddod yn gyflogwr dewisol a byddwn yn gweithio'n galed i ddal gafael ar ein gweithwyr i gadw'r lefelau a'r wybodaeth sgiliau uchel o fewn ein Gwasanaeth. Bydd hyn yn caniatáu i ni ddarparu ein gwasanaethau mewn modd effeithlon a phroffesiynol. Yn ystod ymgyrchoedd recriwtio, byddwn yn gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau fod ein gweithwyr yn adlewyrchu ein cymunedau a'u bod yn amrywiol, fod ganddynt werth ac â hygyrchedd at ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol (Canlyniad Cydraddoldeb 1). Hefyd, byddwn yn parhau i leihau effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd gyda nifer o fentrau i sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan o fewn cynaliadwyedd i'r dyfodol. Bydd gan benderfynu a chynllunio o fewn y Gwasanaeth ffocws clir ar gynaliadwyedd a lle bo'n bosib, byddwn yn caffael o ffynonellau cynaliadwy (Canlyniad Cydraddoldeb 2).

I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i:

- Ddarparu'r Cynllun Gwirfoddoli i ddenu pobl o bob grŵp yn ein cymunedau i fod yn gysylltiedig â'n Gwasanaeth.
- Gymryd y cyfle i ddarparu negeseuon recriwtio wrth ymgymryd â gweithgareddau Diogelwch Cymunedol yn ein cymunedau.
- Barhau â'r strategaeth newydd ar gyfer y System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA), i sicrhau ein bod yn gallu denu ymgeiswyr o'n cymunedau lleol sy'n cwrdd â'n hanghenion gan gynnig hyblygrwydd iddynt ynghylch eu hymrwymiaidau cyfredol.

- Edrych ar ffyrdd newydd o hyfforddi ein Hymhladdwyr Tân SDdAA i sicrhau fod y rhaglen wedi'u haddasu i gydfynd â'u hargaeledd, a thrwy hynny'n arwain at ddenu a chadw gwell.
- Ddatblygu Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth sy'n cwrdd â gofynion arweinwyr goruchwylio, canolradd a strategol. Bydd hyn yn sicrhau y datblygir ein harweinwyr cyfredol ac i'r dyfodol i gwrdd â gofynion byth newidiol y sector cyhoeddus a'u bod â'r gallu i ddarparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac yn y dyfodol.
- Ddatblygu cynlluniau yn ôl olyniaeth i sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw staff o ansawdd.
- Ddatblygu a chyflawni strategaeth hyfforddi lechyd a Diogelwch fydd yn caniatáu i ni reoli a hyrwyddo iechyd a diogelwch yn effeithiol ar hyd pob ardal o'r Gwasanaeth.
- Gynyddu nifer y canghennau cadetiaid tân ac archwilio datblygiad cangen cadetiaid tân bychan i dargedu plant iau.
- Adeiladu cyfleuster Hyfforddi Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd fydd yn sicrhau bydd pob ymladdwr tân yn derbyn yr hyfforddiant risg critigol mwyaf cyfredol. Bydd y cyfleuster yn sicrhau ni allyrir allyriadau cynnyrch anhylosg i'r amgylchedd lleol.
- Leihau'r swm o bapur a ddefnyddir gennym wrth argraffu drwy archwilio ffyrdd mwy effeithlon o rannu ein negeseuon diogelwch.
- Ddefnyddio ffyrdd mwy effeithlon o gyfathrebu i gefnogi dibyniaeth lai, lle bynnag fo'n bosib, ar ddeunyddiau argraffedig sydd â defnyddioldeb cyfyngedig. Er enghraifft, danfon llenyddiaeth diogelwch i'r rhai sydd â chyfeiriad e-bost (gyda'u caniatád) yn hytrach na darparu eitemau papur iddynt.
- Ddatblygu system bywyd cyfan wrth brynu offer newydd, lle rydym yn edrych ar sut ydym yn gwaredu offer wrth ei ailgylchu pan ddaw at ddiwedd ei fywyd.
- Ddisodli pob tywel llaw papur mewn toiledau ag unedau sychu dwylo pŵer uchel, gan arbed ar bapur ac ailgylchu.
- Archwilio'r defnydd o gerbydau trydanol neu hybrid ar draws y Gwasanaeth.
- Ddatblygu nifer o brosiectau 'cyd-leoli' yn debyg i'r rhai hynny yn Nhrefynwy, Y Fenni a Llanilltud Fawr lle'r ydym yn rhannu cyfleusterau â phartneriaid eraill fel Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Barhau i ostwng nifer y tanau awyr agored bwriadol drwy law ein hymgyrchoedd megis Bernie, Dawns Glaw ac Ymgrych Bang.



- Gyhoeddi llawlyfrau Diogel ac iach sy'n cynnwys negeseuon addysgu ac amgylcheddol ynghylch tipio anghyfreithlon ac ailgylchu
- Osod goleuadau LED newydd sy'n effeithiol o ran egni, sy'n cynnwys synwryddion is-goch goddefol ar gyfer synhwyro symudiadau a goleuo argyfwng. Bydd y buddsoddiad hwn yn arbed dros 450,000 cilogram/CO₂ (Carbon Deuocsid) y flwyddyn ar draws ein safleoedd yn Ne Cymru.
- Amnewid nifer o unedau awyru aneffeithlon. Wrth amnewid yr unedau hyn, disgwylwn arbediad allyrru blynyddol o tua 100,000 cilogram/CO₂ i bob blwyddyn.
- Osod System Rheoli Busnes (SRhB) mewn nifer o orsafoedd tân fydd yn lleihau treuliant nwy a thrydan ym mhob safle ac yn caniatáu i ni fonitro'r defnydd yn allanol o'n Pencadlys. Disgwylir i'r buddsoddiad hwn arbed tua 150,000 cilogram/CO₂ bob blwyddyn.
- Osod systemau rheoli boeleri newydd mewn amryw o orsafoedd tân fydd yn lleihau gwastraff a chostau ynni. Disgwylir arbed yn agos at 76,000 cilogram/CO₂ y flwyddyn.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Credwn ei fod yn bwysig atynnu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchiad teg o'n cymunedau a gall ddarparu ein gwasanaethau mewn modd proffesiynol nawr ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol, credwn ei fod yn hanfodol i ostwng ein heffaith ar yr amgylchedd ac annog ffyrdd arloesol o weithio sy'n cynhyrchu llai o allyriadau carbon bob blwyddyn. Mae hwn yn cefnogi ein nodau Cynllun Llesiant yn ogystal â nod Llywodraeth Cymru i sefydliadau sector cyhoeddus ddod yn garbon niwtral erbyn 2030 (mae carbon niwtral yn cyfeirio at gyfrifiad o gyfanswm allyriad carbon endid o sero, a ddaeth i rym wrth wrthbwysu'r swm o garbon a ryddhawyd ganddo â'r swm a wrthbwysir ganddo). Cefnoga hyn ein cynlluniau cynaliadwyedd i ostwng, dileu neu ailgylchu cymaint ag y medrwn i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Cynaliadwyedd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (D LI CD) yn nodi y dylai "pob gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy". Buom yn ymgymryd â gweithgareddau am beth amser sy'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Gwnaethpwyd buddsoddiadau hirdymor gennym i systemau sy'n lleihau gwastraff a byddwn yn parhau i edrych am ffyrdd sy'n gwneud GTADC yn arweinydd mewn cynaliadwyedd. Bydd yr holl benderfyniadau a chynlluniau a wnaed gennym yn ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sy'n cynnwys y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a gorfforwyd o fewn D LI CD.

(Ymbiliwn arnoch i feddlw cyn argraffu'r ddogfen hon ac ystyriwch yr effaith amgylcheddol y bydd ganddi)



Thema Strategol 4

Byddwn yn **Anwesu Technoleg** wrth:

Sicrhau y defnyddiwn dechnoleg i alluogi darparu gwasanaethau sy'n well ac yn

(CB 05)

Golyga hyn:

Rydym wedi sicrhau fod gennym systemau Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) sydd ar gael i wneud arbedion effeithlonrwydd a hefyd i gefnogi darpariaeth ein gwasanaethau. Rydym wedi buddsoddi mewn systemau newydd fel y cawn wella'r ffordd yr ydym yn gweithio a byddwn yn parhau i wneud hyn. Hefyd, bydd yn caniatáu i ni gaffael y data a'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir i sicrhau bydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau (Canlyniad Cydraddoldeb 3).

I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i:

- Ddatblygu ymhellach y System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) i fonitro a gwella effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth. Bydd hyn yn caniatáu i wybodaeth ledled y Gwasanaeth gael ei wyllo mewn system ganolog, gan gynyddu tryloywder a chreu diwylliant o rannu gwybodaeth a monitro. Bydd y Gofrestr Risg, Cronfa Ddata Camau Archwilio a phrosesau Rheoli Prosiectau hefyd yn cael eu lleoli'n ganolog o fewn y system.
- Beilota dyfais symudol i leihau papur sy'n gysylltiedig ag ymweliadau Diogel ac Iach. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r ddyfais i gyflwyno a chasglu gwybodaeth yn ystod yr ymweliad.
- Ddatblygu prosiect o fewn ein Hadrannau Gyllid i sicrhau "diweddglo cynt" i'n cyfrifon blynyddol. Bydd hyn yn caniatáu i ni gwrdd â therfynau amser diwygiedig a nodwyd o fewn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio ynghyd â darparu gwybodaeth ariannol gywir i'n partneriaid sy'n archwilio mewn modd amserol.
- Ddatblygu ymgyrchoedd lleihau risg rhith-wirionedd. Mae rhith-wirionedd yn caniatáu i ddefnyddwyr brofi negeseuon diogelwch gan ddefnyddio amgylchedd digidol wrth wisgo penwisg.

- Ddatblygu System Rheoli Gwybodaeth Diogelwch Tân i Fusnesau sy'n seiliedig ar risg ar gyfer archwilio adeiladau busnes yn Ne Cymru. Bydd y system newydd hwn yn cysylltu nifer o gyfresi data allanol fydd yn caniatáu asesiad mwy cyflawn o risg ac a fydd yn ein helpu i adnabod, targedu a mynd i'r afael â risg yn fwy effeithiol, wrth wneud gwelliannau i'n perfformiad yn gydamserol.
- Geisio uwchraddiadau a chyfarpar newydd i ddyrchafu delio â galwadau a byddino camau drwy law ein Tîm Systemau Cyd Rheoli Tân.
- Ddiogelu parhad busnes ymhellach wrth sicrhau fod systemau wrth gefn gwell mewn lle ac wedi'u profi i ddarparu trawsnewidiad llyfn mewn achos unrhyw fethiant technoleg yn y Cyd Ganolfan Rheoli Tân.
- Gyflwyno mwy o becynnau e-ddysgu i adlewyrchu technoleg fodern a lliflinio meysydd hyfforddi sy'n gritigol i risg.
- Barhau wrth ddatblygu a chyflawni ein prosiect Rhestr a Geogofodol (G2D) i ddyrchafu ein systemau mapio cyfredol a darparu ein criwiau gweithredol â gwybodaeth weithredol gritigol i'w galluogi hwy i wneud ein cymunedau'n ddiogelach.
- Archwilio pob cyfle i ddefnyddio technoleg wrth gaffael offer newydd, fel teclynau monitro cyfradd calon a SLF (System Leoli Fyd-eang) o fewn ein hoffer anadlu newydd, sy'n monitro llesiant ymladdwyr tân wrth ymladd tanau. Mae hyn yn cynnwys dyrchafiadau digidol mewn setiau radio maes tân er lles diogelwch ehangach i ymladdwyr tân.
- Ddatblygu'r System Rheoli Fflyd ymhellach gyda'r bwriad o ddod yn ddi-bapur erbyn 2019. I gyflawni hyn, byddwn yn creu taflenni gwasanaeth electronig ac yn cipio pob prawf cerbyd yn electronig wrth ddefnyddio technoleg Bluetooth i gysylltu â ffeiliau cerbydau.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Bydd ein datblygiadau technolegol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant ehangach ein staff a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Bydd y modd yr ydym yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth a'r ffordd yr ydym yn ei rannu yn cael ei fonitro'n agosach i ddiogelu sut y cyflwynir y wybodaeth hon. Golyga'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol bydd angen cynllunio gofalus a rheolaeth ragweithiol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau newydd sy'n llywodraethu sut rydym yn delio â data. Bydd hyn yn fuddiol i'n cymunedau gan fydd gennym drefniadau diogelu ynghylch sut y rhennir gwybodaeth â phartneriaid. Hefyd, bydd yn cael effaith ehangach ar sut rydym yn darparu ein gwasanaethau wrth ddefnyddio technoleg i amddiffyn a hysbysu pobl gan fydd craffu ehangach ar sut y rheolir y maes hwn.





Thema Strategol 5

Byddwn yn **Cryfhau**
Partneriaethau wrth:

**Weithio â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i
gefnogi cymunedau lleol**

(CB 06)

Golyga hyn:

Mae bod yn bartner statudol ar y naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ardal ein gwasanaeth yn golygu y buom yn gweithio mewn modd cydweithredol â'n partneriaid i saernïo eu Cynlluniau Llesiant. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith gwyh hwn ac yn sicrhau fod y cynlluniau yn darparu gwelliannau i'r bobl yn ein cymunedau i'r hirdymor. Y nod yn y pendraw yw sicrhau ein bod yn gweithredu heddiw mewn modd sydd ddim yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fyw bywydau iach a hapus. Byddwn yn rhannu data â'n partneriaid BGC i sicrhau ein bod oll yn gwneud yr hyn allwn i gwrdd ag anghenion ein holl gymunedau i leihau digwyddiadau a chadw ein cymunedau'n ddiogel ac iach (Canlyniad Cydraddoldeb 3).


I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i:

- Weithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn cyflawni a darparu camau sy'n deillio o gynlluniau Llesiant a gynhyrchwyd gan y BGC.
- Weithio â'n partneriaid i sicrhau ein bod yn darparu cyngor diogelwch cynhwysfawr i ddinasyddion yn ystod ein hymweliadau Diogel ac Iach. Cyflwynir yr ymweliadau hyn i bob un o'r 10 Awdurdod Lleol a bydd yn cynnwys asesiadau i gwympiadau, atal ysmegu, carbon monocsid a diogelwch yn y cartref. Gellir ymestyn hyn i gynnwys gwybodaeth fel llifogydd, bwyta'n iach, ymwybyddiaeth o ddementia a sgrinio am gancr y coluddyn.
- Barhau i gefnogi Fforymau Hydwythedd Lleol o bersbectif parhad busnes, gan fwydo materion ehangach ac anghenion ein cymunedau i waith ein BGC.
- Ymgysylltu'n fwy agos ag Adrannau Cynllunio a Rheoliadau Adeladau Awdurdodau Lleol i sicrhau yr aed i'r afael â materion diogelwch tân mewn adeiladau newydd hyd y safonau uchaf.

- Gryfhau ein partneriaeth â Heddlu De Cymru drwy law'r Cyd Ganolfan Rheoli Tân.
- Weithio â phartneriaid i ostwng nifer y tanau sbwriel a thargeddu ardaloedd a effeithiwyd gan danau gwyllt.
- Barhau i weithio gyda phartneriaid cyfredol ac archwilio cyfleoedd partner newydd i ddarparu Prosiectau Ffenics a Throseddau a Chanlyniadau ill dau i gynulleidfa ehangach.
- Barhau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau i gyfeirio unigolion bregus a adnabuwyd drwy law ymgysylltu.
- Barhau i weithio gydag asiantaethau partner fel Stonewall, Age Cymru a phartneriaid BGC yng ngham profi'r wefan newydd.

Rydym yn cyflawni hyn oherwydd:

Pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithredu, gallwn gyflawni mwy. Cawsom, ers sawl blwyddyn, gysylltiadau cryf â'n partneriaid a nawr, bydd bod yn rhan o'r BGC hyn yn cryfhau'r cysylltiadau hynny. Mae llwyddiant y Cynlluniau Gwelliant yma'n gofyn am ymdrech ar y cyd gan bob partner ac mae De Cymru'n dibynnu arnom i chwarae rôl allweddol wrth lunio'r dyfodol. Bydd hyn o fudd i'n cymunedau mewn sawl ffordd, ac fe gwmpasir pob un o fewn y saith nod llesiant. Yn y pendraw, byddwn yn creu Cymru well, yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol.



Oeddech chi'n gwybod ein bod ni eisoes wedi

Lleihau Risg wrth;

- Barhau i ostwng nifer y marwolaethau o achos tân, tanau bwriadol a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.
- Ddatblygu ac ymestyn ein "Harchwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref" presennol i fod yn "ymweliadau Diogel ac Iach". Erbyn hyn, mae'r ymweliadau'n cynnwys cyngor i gynorthwyo unigolion i wella eu hiechyd a'u llesiant ac mae'n cwmpasu a bodloni nodau [Deddf Iechyd a Lles Cenhedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) 2014.
- Adleoli ein Hadran Reoli Tân, ynghyd ag adrannau GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru, o Bont-y-clun i Gyd Ganolfan Gwasanaethau cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi cyflwyno patrymau shifftau, gweithio'n hyblyg, timau cymorth, cyfarfodydd cydweithredol a hyfforddiant ar y cyd newydd â Heddlu De Cymru.
- Gaffael offer anadlu newydd (OA) yn dilyn proses gaffael "Cymru gyfan" (mewn cydweithrediad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru). Dyrchafodd hwn ddiogelwch ymladdwyr tân wrth ddarparu monitro sydd ar flaen y gad parthed diogelwch a llesiant ymladdwyr tân sy'n rhoi gwybodaeth fyw i Benaethiaid Digwyddiadau a Sector ar bawb sy'n gwisgo OA sy'n dynesu at ardal risg.
- Ailwampio cyfleusterau hyfforddi offer anadlu yng ngorsafoedd tân Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thonypandy i alluogi senarios hyfforddi mwy realistig.
- Ailstrwythuro ein hadran Diogelwch Tân i Fusnesau i ymateb i effaith Tân Tŵr Grenfell ac ymchwilio i debygrwydd risgiau tebyg sy'n gysylltiedig â byw mewn fflatiau tŵr o fewn ardal De Cymru.
- Ymgysylltu'n syth â'n Hawdurdodau Lleol a rheoli adeiladau ynghyd â landlordiaid cymdeithasol, yn dilyn tân Tŵr Grenfell, i adnabod nifer yr adeiladau preswyl yn fwy na chwe llawr sydd o fewn ardal De Cymru. Arweiniodd hyn at 209 o adeiladau preswyl a oedd angen eu harchwilio. Roedd modd i ni ddanfod ein hadnoddau i'r adeiladau hynny i gynnal archwiliadau ar y cyd i'r safleoedd hynny y teimlasom oedd yn diodde'r risg fwyaf.

Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu a chyfathrebu wrth

- Dargedu gweithgareddau atal i gefnogi lleihau nifer yr anafedigion o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ffyrdd.
- Gyflwyno cerbyd 'Addysg ac Ymgysylltu' aml-ddefnydd i'n hadran Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau. Mae'r cerbyd hwn yn cynnwys monitor sgrin cyffwrdd allanol, sy'n caniatáu cyflwyno negeseuon diogelwch allweddol mewn a, ryfal leoliadau. Hefyd, adeiladwyd dynwaredydd gyrru i gefn y cerbyd ar gyfer ymgysylltiadau â gyrwyr ifanc.

- Addysgu ac hysbysu'r cyhoedd drwy gyflwyno ymgyrchoedd atal arobryn gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau cyflwyno. Fe'n gwobrwywyd a'r wobwr arian gan Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus yn 2017 yn y categori Ymgysylltu Cymunedol a'r categori Tîm Mewnol rhagorol ill dau.
- Ddatblygu a chyflwyno rhaglenni atal â'n gwasanaeth carchardai, sy'n cynnwys sesiynau ar ddiogelwch i'r rhai o fewn y system garcharau sy'n paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Mae carcharorion sy'n cwrdd â meini prawf cydnabyddedig o faterion camdrin alcohol neu sylweddau ac y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau yn ymgymryd â sesiynau addysg penodol ynghylch diogelwch yn y cartref mewn paratoad ar gyfer eu rhyddhau. Maent hefyd yn cael pecynnau ailsefydlu diogelwch a chynnig cael eu cyfeirio ymlaen i gael archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar ol gael eu rhyddhau.
- Gyflwyno menter ymgysylltu ag ieuenctid Chwyldro Diogelwch ar y Ffyrdd "Cymru Gyfan" (mewn cydweithrediad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub Cymreig arall) a anelir at y rhai hynny a adnabuwyd eu bod mewn perygl.
- Drawsnewid y rhaglen Ymladdwyr Tân Ifanc i'r rhaglen Cadetiaid Tân.

Gweld gwelliant yn y ffordd rydym yn maethu adnoddau cynaliadwy wrth;

- Hyfforddi mwy na'r 450 personél o Rheolwyr Criw i fyny at ac yn cynnwys y Prif Swyddog Tân (PST) mewn Rheoli digwyddiadau a'r Safon Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder. Ni yw'r unig Wasanaeth Tân ac Achub yn y DU i gwblhau hyn hyd yma.
- Adolygu'r Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol, sicrhau bod gan ein staff gweithredol y canllawiau mwyf cyfredol a diweddar i'w galluogi i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol.
- Gosod peiriannau boeleri newydd i orsafoedd tân Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl a fydd yn cychwyn gwneud arbedion nwy hyd leiafswm o 25% y flwyddyn.
- Cyflawni'r system rheoli tanwydd newydd i fonitro'r defnydd o gerbydau a thanwydd gyda'r nod o leihau ein treuliant.

Gwella'r ffordd rydym yn cofleidio technoleg wrth;

- Gaffael a gweithredu'n llwyddiannus y cit tân ysgafn (coch) newydd i staff gweithredol, fydd yn cael effaith sylweddol ar eu hamodau gwaith y tu allan i ddigwyddiadau rhaniad tân.
- Cwblhau cyflwyno anadlwyr personol unigol, gan ddarparu Offer Gwarchod Personol (OGP) dyrchafedig i'n staff gweithredol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant.

- Ddatblygu ein system Lleolwr Cynnal a Chadw Electronig â meddalwedd ychwanegol o fewn y System Rheoli Fflyd i wella effeithlonrwydd cerbydau. Mae'r system newydd yn darparu mynediad uniongyrchol at raglenni cynnal a chadw ataliol misol a gynlluniwyd, ac yn caniatáu cynllunio ar gyfer ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o amserlennu gwasanaethu cerbydau a sicrhau cyflenwad amserol o rannau.
- Gyflwyno technoleg gweithdai, sgrinau cyffwrdd mawr a thabledi personol, yn caniatáu mwy o awdurdodaeth i dechnegwyr greu a diweddarau eu cardiau gwaith eu hunain. Mae'r rhain yn cysylltu a'r System Rheoli Fflyd gan ddarparu data allweddol a sicrhau y gwneir penderfyniadau gwybodus wrth ymateb i atgyweiriadau a restrir a rhai sy ddim wedi cael eu rhestru.
- Integreiddio cyfresi data partneriaid i greu matics risg i'w ddefnyddio yn 2018 i adnabod y rhai hynny sydd fwyaf angen "ymweliad Diogel ac Iach".


Gwelwyd gwelliant yn y ffordd rydym yn cryfhau partneriaethau wrth;

- Gyfrannu at gynlluniau drafft ar gyfer y naw PSB a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tan ac Achub.
- Weithio mewn cydweithrediad â Heddlu Gwent ar Brosiect Haf "Ysgogi Ein Hieuenctid". Darparodd ein Tîm Troseddau a Chanlyniadau weithdai llwyddiannus i gyfranogwyr o fewn Blaenau Gwent yn ystod haf 2017.
- Alinio prosiectau â Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Llywodraeth Cymru yn cynnwys amrywiol asiantaethau sy'n rhannu data ynghylch y rhai hynny sy'n fregus neu mewn perygl. Defnyddir y data hwn ar gyfer ymgysylltu argyfwng ac ymgysylltu sy ddim yn argyfwng.
- Ffurio partneriaeth newydd rhwng ein Prosiect Ffenics ac Uned Atgyfeiriad Disgyblion Torfaen. Roedd hwn i wella llesiant pobl ifanc a effeithiwyd eu bywydau gan bryder, hunan gred a hunan-hyder isel.
- Drawsnewid yn llyfn i orsaf tri gwasanaeth yn Abertyleri lle'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gwent ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Ddarparu hyfforddiant drwy law mentrau â Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Caergrawnt wrth hyfforddi eu hymhladdwyr tân, yn ogystal Hyfforddiant Rheoli ar gyfer yr ochr weithredol a lefel strategol staff o Yr Amgylchedd Asiantaeth mewn Lloegr.
- Weithio mewn cydweithrediad â'n partneriaid aml-asiantaeth i sicrhau Gêm Derfynol Cynghrhair Pencampwyr Ewrop llwyddiannus yn Stadiwm y Principality ym Mai 2017, gan godi proffil De Cymru yn fyd eang.
- Ostwng ein presenoldeb yn sylweddol mewn galwadau ffug a gynhyrchwyd gan larymau tân awtomatig rhwng Ebrill 2016 ac Awst 2017 drwy law cydweithio effeithiol â pherchnogion eiddo masnachol yn ein hardal. Yn ychwanegol i fynychu llai o alwadau ffug, rydym hefyd yn danfon llai o beiriannau tân i'r galwadau hynny rydym yn mynychu. Wrth gydnabod bod y broblem yn cwmpasu ystod eang o gyfranddalwyr sydd ag amryfal swyddogaethau a blaenoriaethau gwahanol. Roedd modd i ni weithio â chanolfannau derbyn larymau, byrddau iechyd, awdurdodau addysg lleol ac adeiladau masnachol.

Perfformiad

Dengys y siartiau dilynol ein perfformiad dros gyfnod o bedair blynedd.


Cyfanswm y Tanau a Fynychwyd




Gosodwyd y targed ar gyfer tanau a fynychwyd yn 2017-2018 ar yr un lefel a 2017-2018, sef 5,900, sy'n alinio a'r tuedd gostyngol ar gyfer tanau. Pan y'i cyflawnwyd, bydd y ffigwr hwn yn is na 6,000 am y 4ydd tro'n unig yn hanes y Gwasanaeth. Mae'r strategaeth lleihau tanau glaswellt "Cymru Gyfan" - "Dawns Glaw" (mewn cydweithrediad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub Cymreig arall) yn parhau i dargedu gostyngiadau mewn tanau gwyllt a bydd y Gwasanaeth yn gweithio'n agos â'n partneriaid i dargedu ardaloedd lle mae problemau gyda thipio anghyfreithlon ar draws yr ardaloedd Awdurdod Lleol sy'n achosi risg tân parhaus. Mae ymgyrchoedd a dargedir yn bwriadu lleihau tanau coginio/cegin ac mae targedu unigolion mewn perygl yn parhau sy'n caniatáu i orsafoedd dargedu ymweliadau Diogel ac lach yn fwy effeithiol.

Gosodwyd targed cyfanswm y galwadau ffug ar 7,500. Bydd y Cyd Ganolfan Rheoli Tân yn parhau i herio pob galwad a dderbyniwyd o ganlyniad i larymau tân awtomatig er mwyn atal cyrchoedd diangen. Hefyd, mae cytundebau yn cael eu negodi â sefydiadau amrywiol i leihau cyrchoedd yn ystod oriau gwaith, a ddylai ostwng cyfanswm y larymau ffug a fynychwyd ymhellach. Y targed hwn, pan y'i gyflawnwyd, fydd y nifer lleiaf o ddigwyddiadau a fynychwyd ers ffurfio'r Gwasanaeth ym 1996.


Cyfanswm Galwadau Ffug






Gosodwyd y targed ar gyfer cyfanswm y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn 1,050. Gweithgareddau megis Rhaglen Domino sy'n addysgu gyrwyr newydd a phobl ifanc ynghylch peryglon gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Disgwylir i'r ymgyrchoedd ostwng nifer y digwyddiadau a fynychwyd ymhellach yn y blynyddoedd sy'n dod.

Gosodwyd swm targed y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill fel 2,000. Mae pob un o'r rhain yn ddigwyddiadau nad sy'n ymwneud â thân megis llifogydd, rhyddhau o lifftiau ac achubiadau o ddŵr. Mae'r targed a osodwyd lawer yn llai na'r ffigwr disgwyliedig yn 2017-2018 o 2,641 (a ellir ei briodol'n bennaf i ddigwyddiadau a fynychwyd fel rhan o'r peilot Ymateb Tân Meddygol (YTM) a gwaith cydweithredol gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru). Fodd bynnag, dylai penderfyniad cenedlaethol i derfynu'r cynllun peilot FMR ym Medi 2017 weld nifer y digwyddiadau a fynychwyd yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn 2016-2017). Bydd y Gwasanaeth hefyd yn anelu i ostwng digwyddiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau sy'n achosi mynediad/ymadael ac achubiadau codi a ystyrir yn berygl llai, gan gwestiynu galwadau drwy'r Adran Rheoli Tân ar y cyd a gweithio'n agos gyda galwyr mynych i leihau digwyddiadau o'r fath.




Cyfanswm y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan danau



Gosodwyd targed cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau o achos tanau yn 66 ac mae'r targed ar gyfer cyfanswm y marwolaethau ac anafiadau o achos tanau Damweiniol yn 59. Gan barhau â'r cynnydd da, byddwn yn bwrw ymlaen i geisio deall yr achosion sydd wrth wraidd anafiadau sy'n ymwneud â thân, wrth ddefnyddio'r data a gofnodwyd o ddigwyddiadau blaenorol ynghyd â data ychwanegol a gasglwyd drwy ymgysylltu pellach â'r cleifion unigol dan sylw. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy 'Astudiaethau Achos Prif Anafiadau Achos' (a gynhelir ar gyfer yr holl farwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n ymwneud â thân), ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i brosiect bydeang LIFEID a nifer o ymgyrchoedd sy'n cynnwys Diogelwch yr Haf, Cegin a Choelcerthi.

Gosodwyd y targed ar gyfer canran y tanau mewn anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle tarddasant fel 85%. Mae'r duedd flynyddol ar gyfer y dangosydd hwn yn gadarnhaol ac yn gwella, ond mae pob amrwyiant blynyddol yn hynod fach. Dylanwadir y dangosydd hwn yn fawr iawn gan gamau ac ymddygiad y meddianwyr cyn neu ar ar adeg y tanio. Mae'r rhain yn cynnwys mabwysiadu cyngor diogelwch tân a chau drysau a all atal tân rhag ledu.

Y ganran o danau mewn anheddau a gynhwyswyd yr ystafell lle lle dechreuant



Lleisia dy farn

Rydym yn chwilio'n barhaol am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a hefyd i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. I gyflawni hyn, rydym am sicrhau yr ystyrir eich safbwyntiau wrth ddarparu ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebu
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX



I gysylltu â ni, ewch i'n gwefan: www.decymru-tan.gov.uk

Ffoniwch ni ar **01443 232000**

E-bostiwch ni ar ymholiadau@decymru-tan.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service